

PARRY, DAVID (1682? - 1714), ysgolhaig

Enw: David Parry
Dyddiad geni: 1682?
Dyddiad marw: 1714
Rhiant: William Parry
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig
Maes gweithgaredd: Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn nhref Aberteifi yn fab i William Parry, ' dyn tlawd.' Tua 1695, pan oedd (i bob golwg) yn ysgol ramadeg Aberteifi (ac 'yn Lladinwr rhugl'), dygwyd ef gan [William Gambold](#) y gramadegydd i sylw [Edward Lhuyd](#), a'i cymerth yn gynorthwywr yn ei ymchwiliadau ac yn gydymaith ar ei deithiau yng Nghymru, Iwerddon, Sgotland, Cernyw, a Llydaw (lle y cymerwyd y ddau i'r ddalfa fel 'ysbiwyr'). Ar eu dychweliad i Rydychen, yn Ebrill 1701, ymaelododd Parry yng Ngholeg Iesu; yn 1704 ymdrechodd [Lhuyd](#) i gael ysgoloriaeth iddo yno, ond ar waethaf ' hoffter pawb o Parry,' llwyddodd y cymrawd ' oerllyd ' [John Wynne](#) (yr esgob wedyn) i atal hynny. Graddiodd Parry yn 1705 (M.A. 1708), ac yr oedd yn is-geidwad (di-dâl) amgueddfa Ashmole dan [Lhuyd](#). Yn *Archaeologia Lhuyd*, 1707, cynhwysir adran (270-89) gan Parry, ' An Essay towards a British Etymologicon.' Ar farwolaeth [Lhuyd](#) penodwyd Parry (19 Gorffennaf 1709) yn geidwad yr ' Ashmolean ' - heb gyflog eto, sut bynnag yr oedd yn ei gynnal ei hun; tystia Thomas Hearne (*Collectanea*, ii, 224) nad oedd gymhwysach g r ' ped ymroddai i'r gwaith,' ond dywed [Hugh Thomas](#) o Frycheiniog amdano: ' capable ... if he could spare time from his pots and companions; but out of the tipling [sic] house he cannot spare one minute even to common civility ' (*Cambro-Briton*, ii, 369). Yn nes ymlaen, eddyf Hearne nad oedd pethau'n dda yn yr ' Ashmolean,' gan esgusodi Parry am na thelid cyflog iddo; ymwelodd Almaenwr â'r amgueddfa yn 1710, ond ni welodd mo Parry yno - ' the custos, always in the tavern, was too busy guttling and guzzling ' (Mallet, *Hist. of the University of Oxford*, iii, 22). Bu Parry farw fis Rhagfyr 1714 - 8 Rhagfyr yn ôl [Richard Ellis](#) (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1906-7, 48), 10 Rhagfyr meddai Hearne (op. cit., v, 2), gan chwaneu: ' being a perfect sot he shortened his days, being just turned of thirty.' Edrydd Foster ei yrfa academaidd yn gywir, ond uniaetha ef ar gam (a dilynir ef yn hyn gan *W. Wales Hist. Records*, i, 253; iii, 229) â David Parry arall, rheithor Nolton a Bridell yn Sir Benfro, y profwyd ei ewyllys yn 1720.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

R. T. Gunther, *Life and letters of Edward Lhwyd second Keeper of the Musaeum Ashmoleanum* (mynegai)

Hearne, *Collectanea Menevensia*, ii, iii, v (mynegeion)

Richard Ellis, yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1906-7

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5238411](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.